

**Gyrfacymru.com – Diweddarau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol CA4 ac
Ôl-16 (16-18) ar gyfer 2018-2019**

<https://www.gyrfacymru.com/prof>

Mae adran cyrsiau gyrfacymru.com yn caniatáu i Bobl Broffesiynol yn eich ysgol neu'ch coleg Greu, Golygu a Rheoli cyrsiau yr ydych yn eu cynnig i ddysgwyr. Mae Cyrsiau yn un o rannau pwysicaf y wefan. Mae Cyrsiau yn gyrru agweddau eraill o'r system ar-lein fel yr arolwg Dewisiadau Rhydd, Rhaglen(ni) Opsiynau CA4, Cynlluniau Llwybr Dysgu ac adroddiadau Cwricwlwm Lleol sy'n cefnogi Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Oherwydd hynny, mae'r broses o gadarnhau cynnig yn hanfodol i sicrhau bod y data cywir yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Bydd pob cymhwyster a gadarnheir fel rhan o'r Cynnig Cwricwlwm Lleol ar gyfer 2018-2019 yn cael ei gyhoeddi ar wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru <http://mylocalschool.wales.gov.uk/?lang=cym>. Felly, gwnewch yn siŵr bod yr holl ddata yn gywir os gwelwch yn dda.

Mae cronfa ddata gyrfacymru.com wedi'i hunioni â chronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW): <https://www.qiw.wales/?lang=cy>.

Mae'r holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi ar gyfer addysgu yng Nghymru i ddysgwyr dan 19 oed ar gael ar wefan QiW, ac mae modd eu gweld ar wefan gyrfacymru.com.

Mynediad i'r adran Pobl Broffesiynol:

- Logiwch i mewn i'r adran Pobl Broffesiynol:
<https://www.gyrfacymru.com/prof>

Os oes angen Enw Defnyddiwr a Chyfrinair arnoch, neu wedi anghofio eich Enw Defnyddiwr neu Gyfrinair, cysylltwch â llinell gymorth gyrfacymru.com ar **02920 846799.**

- Ewch i'r adran 'Gweinyddiaeth'.

Cyn bwrw ymlaen, byddai'n ddoeth creu ac argraffu adroddiad fydd yn nodi'r cymwysterau hynny sydd yn yr adran Cyrsiau 'Wedi cyhoeddi' o'r wefan, a'r cymwysterau hynny sydd 'Wedi'u Dileu neu Wedi'u Harchifo' yng nghronfa ddata QiW, ac sydd angen cael eu diweddarau. Er mwyn gwneud hyn, dilynwch y camau hyn:

- Ewch i 'Gweld Adroddiadau'
- Rhwch y llygoden dros 'Courses' a dewiswch 'KS4 and 16-18 All Qualifications'
- Dewiswch y flwyddyn academaidd 2018-2019
- Dewiswch y cyfnod; Dewiswch iaith yr ydych ei heisiau; 'Adroddiad cyfredol'
- Cliciwch 'View Report'
- Allforiwch yr adroddiad i Excel a'i Argraffu.

Bydd yr adroddiad 'All Qualifications' yn dangos llinell drwy destun a/neu seren lle mae'r cymhwyster 'wedi'i ddileu neu wedi'i archifo' yng nghronfa ddata QiW ac sydd angen ei ddiweddarau ar gyrfacymru.com.

Os ydych yn cael unrhyw broblemau gyda'r adroddiadau, cysylltwch â llinell gymorth gyrfacymru.com ar **02920 846799.**

Cwblhau'r Cynnig Cwricwlwm Lleol o ran CA4 ac Ôl-16:

- Ewch i 'Gweinyddiaeth'
- Ewch i 'Cyrsiau (Cynnig Cyrsiau CA4 neu Ôl-16).'

Bydd y dudalen Cyrsiau (Cynnig CA4 neu Ôl-16) yn llwytho yn y tab 'Wedi cyhoeddi' a bydd yn rhestru'ch holl gyrsiau cyfredol. Mae'n bosibl y cymer peth amser i lwytho'r dudalen gyfan gan fod cymaint o gyrsiau yn y system. Mae modd adnabod cyrsiau sydd â chymhwyster sydd 'Wedi'i ddileu neu wedi'i archifo' gan fod eicon ffolder wrth enw'r cwrs. Yn ogystal, bydd y Cymhwyster, corff Dyfarnu a statws Galwedigaethol yn dangos llinell drwy'r wybodaeth.

Cewch chwilio am gwrs penodol drwy ddefnyddio'ch blwch chwilio yn y tab 'Wedi cyhoeddi'.

Dilynwch y camau canlynol i ddiweddarau cwrs:

- Cliciwch y ddolen 'Golygu' wrth ochr y cwrs yr ydych eisiau ei ddiweddarau.

Ar y sgrîn gwybodaeth am y cwrs fe welwch fod 'Statws' y cymhwyster cyfredol sy'n gysylltiedig â'r cwrs hwn 'Wedi'i ddileu neu wedi'i archifo'.

- Cliciwch y botwm gwyrdd 'Chwilio am Gymhwyster'
- Teipiwch gyfeirnod perthnasol y cymhwyster (Rhif Ofqual (QAN) os ydych yn ei wybod yn y blwch 'Rhif cymhwyster'
- Cliciwch y botwm glas i 'Chwilio'
- Cliciwch y botwm 'Teitl y Cymhwyster' i ychwanegu'r cymhwyster at y cwrs.

Sicrhewch fod cyfeirnod y cymhwyster (QAN) a deipiwch yn gywir. Does dim angen rhoi sleisiau yng nghyfeirnod y QAN, er mwyn cael hyd i'r cymhwyster perthnasol. Cyfeirnod y QAN neu'r Rhif Cymeradwyo/Dynodi yw'r rhif unigryw sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster hwnnw, sy'n dechrau â C00, ac mae modd cyfeirio ato yng nghronfeydd data QiW.

<https://www.qiw.wales/?lang=cy>

Os nad oes gennych gyfeirnod y cymhwyster (QAN), cewch chwilio am gymhwyster drwy ddewis Lefel; corff Dyfarnu; Teitl y Cymhwyster; meysydd Cyffredinol a/neu Galwedigaethol. Cewch ddefnyddio un, pob un neu gyfuniad o'r dangosyddion hyn i chwilio am gymhwyster.

Unwaith mae'r cymhwyster newydd wedi'i ychwanegu, cewch ddileu'r hen gymhwyster drwy glicio'r ddolen 'Dileu'. Sicrhewch eich bod yn 'Cadw' unrhyw newidiadau i bob cwrs.

Cymwysterau a ariennir drwy Grant Gwella Addysg:

Yn ogystal â'r uchod, mae blwch ticio newydd wedi'i ychwanegu i ddynodi pa un a yw cymhwyster wedi'i ariannu drwy grant Gwella Addysg ai peidio. Bydd angen i chi ddiweddarau'r blwch hwn drwy roi tic ynddo os yw'r cymhwyster wedi'i ariannu drwy grant Gwella Addysg. Bydd hyn yn berthnasol i'r holl gymwysterau sy'n rhan o'r Cynnig Cwricwlwm Lleol. Mae'r blwch ticio wedi'i

ragosod i fod yn wag, oni bai bod y bocs wedi ei dicio fel rhan o'r cynnig Cwricwlwm Lleol ers y llynedd.

Wrth ddiweddarau'r maes ariannu Grant Gwella Addysg, sicrhewch eich bod yn clicio'r botwm 'Cadw' cyn dychwelyd i'r dudalen flaenorol.

Gwybodaeth am gyrsiau:

Unwaith mae'r cymhwyster newydd wedi'i ychwanegu at y cwrs, cewch ddiweddarau gwybodaeth arall am gyrsiau ar y sgrîn yn ôl yr angen, er enghraifft, enw'r Cwrs; Cod y Ganolfan (ar gyfer cydweddiad â system SIMS eich ysgol neu'ch coleg os ydych yn defnyddio'r system Opsiynau); dyddiad Dechrau a dyddiad Gorffen. Caiff hyn ei osod i 09/18 a 07/20 yn awtomatig wrth greu cwrs **newydd** yn unig).

Mae modd ychwanegu mwy nag un Darparwr Dysgu yn y maes 'Math o Ddarparwr' os oes angen. Mae hwn yn nodi lle caiff y cymhwyster ei addysgu. Cliciwch y botwm gwyrdd 'Chwilio Darparwyr' i chwilio am Ddarparwr Dysgu. Unwaith ichi ddod o hyd i'r Darparwr Dysgu, cliciwch y botwm gwyrdd 'Ychwanegu'.

Mae gan y maes 'laith addysgu' opsiwn newydd i ychwanegu 'Cymraeg a Saesneg' at gwrs os oes angen. Mae'r opsiwn hwn yn ogystal â chysiau sydd ar gael yn ddwyieithog, ond caiff ei drin yn yr un modd ar gyfer adroddiadau.

Partneriaethau a Phartneriaethau Cydweithredol

Mae'n ofynnol gan Llywodraeth Cymru bod pob ysgol a choleg yn nodi'r partneriaid cydweithredol ar gyfer cyrsiau a gynigir ar y cyd i ddysgwyr.

Gellir cwblhau'r adran hon mewn dau modd, a amlinellir isod:

1. Partneriaethau Canolog

Mae Rhwydweithiau yn gallu sefydlu Partneriaethau canolog ar gyfer CA4 ac Ôl-16. Bydd hyn yn galluogi ysgolion neu golegau i ddewis y Partneriaeth briodol o'r blwch 'Partneriaeth' wrth greu neu ddiweddarau cwrs.

Pan ddewisir enw Partneriaeth, bydd y blwch 'Partneriaeth Gydwethredol' yn dangos enwau'r Darparwyr Dysgu sy'n rhan o'r Partneriaeth honno. Cewch ddileu neu ychwanegu Darparwyr Dysgu ychwanegol yn ôl yr angen.

2. Partneriaid Cydwethredol

Os yw'ch Rhwydwaith wedi dewis peidio â sefydlu Partneriaethau yn ganolog yn CA4 neu Ôl-16, bydd modd ychwanegu Partneriaid Cydwethredol â llaw. Dilynwch y camau hyn i wneud hynny:

- Cliciwch y botwm gwyrdd 'Chwilio Darparwr'
- Chwiliwch am Ddarparwr Dysgu yn ôl enw neu'r ddewislen A-Z
- Dewiswch y Darparwr Dysgu
- Cliciwch i ychwanegu at 'Partneriaeth Gydwethredol' a dad-glicio'r maes 'Astudio yn' os oes angen
- Cliciwch y botwm gwyrdd 'Ychwanegu'
- Dilynwch y camau uchod yn ôl yr angen.

Efallai bod gwell gan eich Rhwydwaith ychwanegu cyrsiau Partneriaeth yn ganolog. Os felly, gwiriwch hynny gyda'ch Rhwydwaith cyn cwblhau'r wybodaeth am gwrs cydwethredol.

Nifer y Dysgwyr

Mae'r maes 'Nifer y dysgwyr' yn berthnasol **yn unig** i'r canlynol:

- Y broses Cymryd Cynnig ac nid oes angen ei gwblhau ar gyfer y Cynnig Cwricwlwm Lleol o ran CA4 neu Ôl-16 ar gyfer 2018-2019.
- Cyrsiau sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes raid cofnodi nifer y dysgwyr ar gyfer cyrsiau sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg.

Unwaith ichi ychwanegu'r wybodaeth am y cwrs i'r dudalen, gwnewch yn siŵr eich bod yn clicio'r botwm 'Cadw'.

Creu Cwrs newydd

Dilynwch y camau hyn i greu cwrs newydd:

- Cliciwch y botwm i 'Ychwanegu cwrs' (os ydych yn gwe-lywio o'r hafan dewiswch 'Gweinyddiaeth'; Cyrsiau (Cynnig ar gyfer cyrsiau CA4 neu Ôl-16) er mwyn dychwelyd i'r tudalen 'Wedi cyhoeddi')
- Dilynwch yr un camau ag uchod er mwyn diweddarw cwrs.

Unwaith ichi ychwanegu'r wybodaeth am y cwrs i'r dudalen, gwnewch yn siŵr eich bod yn clicio'r botwm 'Cadw'.

Llwybrau Lluosog

Cyn cadarnhau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol, bydd rhaid i chi sicrhau bod eich cymwysterau yn priodoli'r 'Dewis' perthnasol drwy gwblhau cam olaf y broses weinyddol; gan nodi rhif cywir y llwybrau lle cynigir y cwrs.

Fel arfer, yr unig esiampl o lwybrau 'Lluosog' yw mewn Celf a Dylunio. Gallai'ch ysgol neu'ch coleg ddefnyddio'r cymhwyster hwn mewn sawl modd gwahanol, er enghraifft: 'Cerameg', 'Tecstilau' a 'Ffotograffiaeth'. Yn yr achos hwn, byddai angen i CBAC TGAU Lefel 1/Lefel 2 mewn Celf a Dylunio fod yn dri 'Dewis' ar wahân yn eich Cynnig Cwricwlwm Lleol.

Bydd gyrfacymru.com yn rhagosod achosion lle defnyddir yr un cymhwyster sawl gwaith i 1 Dewis yn unig. Mae hynny er mwyn sicrhau ein bod yn cadw hyblygrwydd yn y system Opsiynau ac osgoi gwallau yn yr adroddiadau Cwricwlwm Lleol.

- Bydd rhaid mynd naill ai i'r adran Cyrsiau CA4 neu'r adran Cyrsiau Ôl 16 yn adran Gweinyddiaeth y wefan.
- Cliciwch y ddolen yn y testun '**cliciwch yma i ddiweddarw**'. Bydd sgrîn yn dangos pob cymhwyster ar gyfer CA4 neu Ôl-16 sydd yn y system.

Y cam nesaf fydd nodi nifer y Llwybrau lle caiff y cymhwyster ei gynnig wrth ochr y cymhwyster perthnasol.

Bydd y golofn cyrsiau yn nodi lle mae'r un cymhwyster wedi'i fewnbynnu fwy nag unwaith yn gyrfacymru.com.

- Cliciwch y rhif, er enghraifft 1 yn y golofn Llwybrau.
- Dewiswch nifer y Llwybrau lle cynigir y cymhwyster drwy ddefnyddio'r saeth ar y bocs dewis.
- Unwaith i chi ddewis y rhif perthnasol bydd y system yn cadw'r wybodaeth hon yn awtomatig.
- Bydd trywydd archwilio i'w weld ar y sgrîn sy'n dangos pryd cafodd nifer y Llwybrau ei ddiweddarau a chan bwy.

Dim ond lle mae'r un cymhwyster wedi'i fewnbynnu mwy nag unwaith yn gyrfacymru.com y mae modd nodi nifer y Llwybrau lle y cynigir cymhwyster.

Cadarnhau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol

Unwaith eich bod yn hapus gyda'ch cyrsiau, bydd angen cadarnhau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bydd cadarnhau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol yn golygu bod y data ar gael yn yr adroddiadau Cwricwlwm Lleol i ysgolion, colegau, Rhwydweithiau a Llywodraeth Cymru. Os ydych yn cadarnhau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol yn gynnar, cewch dynnu'n ôl eich cadarnhad a chadarnhau eto cyn belled â bod y dyddiad cau heb fynd heibio. Bydd data Cynnig Cwricwlwm Lleol a gadarnheir yn cael eu cyhoeddi ar wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/?lang=cym>.

Dilynwch y camau hyn i gadarnhau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol ar gyrfacymru.com:

- Ewch i 'Gweinyddiaeth'
- Ewch i Cyrsiau (cynnig ar gyfer cyrsiau CA4 neu Ôl-16). Bydd y dudalen yn llwytho yn y tab cyrsiau 'Wedi cyhoeddi'.
- Gan ddefnyddio'r blychau ticio wrth y cyrsiau, dewiswch gwrs unigol neu gyrsiau yr ydych eisiau eu cadarnhau.
- Cliciwch y botwm gwyrdd yng nghornel uchaf y dudalen ar y dde i gadarnhau. Bydd neges yn ymddangos sy'n gofyn pa un a ydych eisiau cadarnhau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol i Lywodraeth Cymru ai peidio. Cliciwch i gadarnhau neu ganslo.
- Os byddwch yn cadarnhau, fe ewch i'r tab 'Gweld pob cadarnhad' lle y gwelwch pob cadarnhad, boed yn rhai newydd neu rai hen.

- Er mwyn dileu cadarnhad sydd heb gyrraedd ei ddyddiad cau, cliciwch y ddolen 'Dileu'. Bydd neges yn ymddangos i ofyn a ydych eisiau dileu'r cadarnhad. Cliciwch i gadarnhau neu ganslo.
- Er mwyn ailgadarnhau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol, ewch i'r tab 'Wedi cyhoeddi' a dilyn y camau a amlinellwyd uchod.

Edrych ar eich adroddiadau Cynnig Cwricwlwm Lleol:

Er mwyn gweld eich adroddiadau Cynnig Cwricwlwm Lleol, dilynwch y camau hyn:

- Ewch i 'Gweinyddiaeth'
- Ewch i 'Gweld Adroddiadau'
- Rhowch y llygoden dros 'Courses' a dewiswch 'KS4 Local Curriculum Report' neu '16-18 Local Curriculum Report'
- Dewiswch y flwyddyn academaidd 2018-2019
- Dewiswch yr iaith berthnasol
- Cliciwch 'View Report'
- Cewch allforio'r adroddiad i Excel neu PDF yn ôl yr angen.

Gadewch rhwng 3 a 5 munud rhwng amser cadarnhau eich Cynnig Cwricwlwm Lleol a rhedeg yr adroddiad i gadarnhau, er mwyn sicrhau bod y system wedi cael cyfle i brosesu'r holl wybodaeth.

Defnyddiwch y manylion cyswllt canlynol ar gyfer unrhyw ymholiadau am gymorth

<u>Ymholiadau sy'n berthnasol i:</u>	<u>Manylion cyswllt:</u>
Gyrfacymru.com	Llinell gymorth: 02920 846799
Defnyddio a gwe-lywio QiW	Cysylltwch â'r corff dyfarnu sy'n cynnig y cymhwyster yn y lle cyntaf. I gael cymorth ychwanegol cysylltwch â: Recognitionandapproval@qualificationswales.org
Data Llywodraeth Cymru ar QiW	IMS@wales.gsi.gov.uk
Pwyntiau perfformiad a	

chodau disgowntio	14-19@wales.gsi.gov.uk
Cynllunio'r Cwricwlwm a Dewisiadau cyn/ôl 16	
Polisi	Eich Cydgysylltydd Rhwydwaith 14-19